# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 20 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(122)v2

### 1. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM5194 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi methiant llwyr a chyson Llywodraeth Cymru i sicrhau gwelliannau ym mywydau pobl Cymru, yn benodol ei:

a) anallu i ddatblygu economi Cymru;

b) methiant i gau bylchau cyrhaeddiad allweddol mewn addysg;

c) perfformiad gwael o ran cyrraedd targedau amseroedd aros ac ymateb y GIG; a

d) aneffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd tlodi.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'pobl Cymru,' a rhoi yn ei le 'ac yn galw arni i wneud iawn am ei:

a) anallu i ddatblygu economi Cymru drwy ddatblygu ystod lawn o wasanaethau er mwyn i fusnesau allu cael gafael ar gredyd, cyngor busnes a chymorth marchnata, a ddarperir o un pwynt cyswllt;

b) methiant i gau bylchau cyrhaeddiad allweddol mewn addysg drwy gynyddu gwerth y premiwm disgybl a sicrhau ei fod yn cael ei wario'n effeithiol ar leihau'r bwlch rhwng tlodi a chyrhaeddiad;

c) perfformiad gwael o ran cyrraedd targedau amseroedd aros ac ymateb y GIG drwy sicrhau gwariant effeithiol ar wasanaethau rheng flaen y GIG; a

d) aneffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd tlodi drwy roi sylw i effaith yr ystod lawn o wasanaethau cyhoeddus gwael ar wreiddio tlodi ac anghydraddoldeb ac adrodd yn rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ei chynnydd.'

**2. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM5195 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth uwch i agenda lleoliaeth yng Nghymru; gan sicrhau bod cymunedau yng Nghymru yn elwa o fwy o benderfyniadau a grymuso lleol.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd modd gwella penderfyniadau a grymuso lleol yn sylweddol drwy:

a) cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau cynghorau lleol;

b) caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol; ac

c) datganoli plismona i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod plismona'n gallu ymateb i anghenion cymunedau lleol.

**CYFNOD PLEIDLEISIO**

Dechreuodd yr eitem am 14.26
**Crynodeb o Bleidleisiau**

Daeth y cyfarfod i ben am 14:27

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2013**